

No.

CABINET

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 13 Ebrill, 2023.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, B.E. Brooks, G. John, S. Sivagnanam, E. Williams a M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd E. Goodjohn a Dr. I.J. Johnson.

C272 CYHOEDDIAD –

Croesawodd yr Arweinydd bob plaid i gyfarfod y Cabinet gan atgoffa pawb oedd yn bresennol bod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac y caiff y recordiad hwn ei archifo ar gyfer gwyllo yn y dyfodol.

Gofynnodd i'r holl gyfranogwyr 'dawelu' eu hunain pan nad oeddent yn siarad er mwyn osgoi unrhyw sŵn cefndir pan oedd cyfranogwyr eraill yn siarad, a dywedodd, pe bai cyfranogwr am siarad, y dylai godi ei law (i'w gweld ar y sgrin) neu ddefnyddio'r swyddogaeth 'codi llaw'.

Gofynnwyd i'r Aelodau sicrhau bod pob dadl yn cael ei chodi ar lafar ac nid trwy'r swyddogaeth 'sgwrsio' er mwyn y recordiad. Gellid defnyddio'r swyddogaeth 'sgwrsio' i dynnu sylw at unrhyw faterion technegol a/neu i gael sylw'r Cadeirydd neu Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd.

C273 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd M.R. Wilkinson.

C274 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Mawrth, 2023 fel cofnod cywir.

C275 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

No.

C276 CEFNOGAETH COSTAU BYW AR GYFER BWYD, MANNAU CYNNES A DULLIAU CEFNOGI ERAILL (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 27 Chwefror 2023.

Dyweddodd yr Arweinydd y bu trafodaeth graff a threiddgar yn y cyfarfod ond bod llawer o'r pwyntiau wedi cael sylw yn y cyfnod interim. Roedd gwerthusiad o'r hyn oedd yn digwydd yn yr hybiau croeso cynnes wedi'i gynnal ac roedd £30k ychwanegol wedi'i ddyrannu i gefnogi'r gwasanaeth, a oedd hefyd wedi tyfu i gefnogi 3.5k o bobl dros gyfnod y gaeaf a chynyddu mewn nifer i 40 o hybiau oherwydd materion unigedd a chostau byw parhaus. Roedd prosiectau ardderchog yn digwydd, e.e., yng Nghanolfan Gymunedol Buttrills yn y Barri, a hefyd mewn llawer o lyfrgelloedd Bro Morgannwg.

Argymhellwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel a gynhaliwyd ar 9 Ionawr 2023 ehangu'r gwaith o ddarparu mannau cynnes a gwasanaethau cysylltiedig ar draws Bro Morgannwg, ac edrych ar ddyfnhau cymorth o'r fath h.y., darparu gwasanaethau sy'n delio ag unigedd, ac yn cefnogi preswylwyr a chymunedau agored i niwed, a oedd wedi digwydd ers i'r cyfarfod ddigwydd.

Roedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi gofyn i'r heriau costau byw sy'n wynebu cymunedau gwledig gael eu hystyried yn fwy ac i fwy o bwyslais gael ei roi arnynt. Roedd hyn hefyd wedi cael ei wneud, e.e., roedd gwaith gwych wedi'i wneud yn Llanilltud Fawr.

Dyweddodd yr Arweinydd fod llawer o'r gwasanaethau integredig yno i gefnogi cymunedau lleol wedi bod yn bosibl oherwydd ystod o sefydliadau'n cydweithio ond gofynnodd i unrhyw sefydliadau eraill oedd mewn sefyllfa dda i gefnogi cymunedau lleol ac yn dymuno cael cymorth i gysylltu â'r Cyngor i weld pa opsiynau allai fod ar gael.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD – BOD y safbwyntiau a fynegwyd gan y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel ar 9 Ionawr 2023 a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 27 Chwefror 2023 yn cael eu nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C277 ASTUDIAETH GENEDLAETHOL ARCHWILIO CYMRU: ASESIAU O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB (EIAS): MWY NAG YMARFER BLWCH TICIO? (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 27 Chwefror 2023.

No.

Dywedodd yr Arweinydd y dylai Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEGau) fod yn gynhwysfawr.

Roedd y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar 8 Rhagfyr 2022 wedi cyfeirio at faterion iechyd meddwl a diffyg adrodd am anghydraddoldeb iechyd meddwl, yn benodol pobl ifanc ac oedolion yn ail-ymgysylltu â'r ysgol neu'r gwaith ar ôl y pandemig. Roedd cyflwyniad wedi'i roi mewn cyfarfod diweddar Cydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol yn trafod materion iechyd meddwl presennol a sut roedd sefydliadau amrywiol yn ceisio cydweithio ar y mater hwnnw wrth symud ymlaen.

Roedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 27 Chwefror 2023 hefyd wedi codi'r mater o nodweddion gwarchoddedig a'r ffaith ei bod yn bwysig cofio y gallai rhai unigolion fod yn perthyn i fwy nag un o'r nodweddion gwarchoddedig ac y gallai rhai pobl fod yn ddifreintiedig oherwydd mwy nag un. Roedd cyfarfod diweddar y Tasglu Anabledd wedi trafod bod yn ddifreintiedig ac anghydraddoldeb o ganlyniad i amgylchedd. Byddai mwy o ddefnydd o asesu ar-lein yn cael ei ystyried ymhellach, ond roedd yn bwysig bod yn ymwybodol hefyd o allgáu digidol.

Dywedodd y Cynghorydd Wilson ei bod yn bwysig cofio bod gan lawer o bobl anableddau cudd ac mai agweddau ffisegol fel adeiladau eu hunain a allai analluogi pobl yn aml.

Dywedodd y Cynghorydd Sivagnanam mai un o'i huchelgeisiau oedd gwneud AEGau yn ddogfennau byw y gellid eu defnyddio ar draws y Cyngor ac ar draws pob Adran. Roedd rhwystrau, boed yn ymwybodol neu'n anymwybodol, yr oedd angen eu cydnabod a'r her fel corff cyhoeddus oedd ceisio dileu'r rhwystrau hynny.

Dywedodd y Cynghorydd Birch fod AEGau yn ddefnyddiol gan eu bod yn dangos gweithio gyda'r bobl yr oedd y Cyngor yn eu cynrychioli ac yn gweithio mewn partneriaeth â defnyddwyr gwasanaeth a'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau i sicrhau bod cyllid yn cael ei wario'n briodol a gyda chyfranogiad llawn pawb.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD – BOD y Cabinet yn cymeradwyo'r argymhellion o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar 8 Rhagfyr 2022 a chyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 27 Chwefror 2023 ac y byddai'n ceisio cynnwys y safbwyntiau hynny mewn gwaith wrth symud ymlaen.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C278 DIWEDDARIAD CHWARTER 3 Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 27 Chwefror 2023.

Dywedodd yr Arweinydd fod trafodaeth ddi-ddorol wedi bod ynghylch sut y byddai effaith yn adeiladu ar draws y risgiau a Breuder Ariannol a'i effaith ar y Cyngor. Dywedodd fod cronfeydd wrth gefn ar waith er mwyn osgoi unrhyw effaith drychinebus ar y Cyngor am yr union reswm hwnnw.

Roedd yr awgrym o ran cynnal gweithdy datblygu Cofrestr Risg yn un da, ond awgrymodd yr Arweinydd fynd ymhellach a chynnal gweithdy datblygu gyda'r Aelodau i drafod sut y gallai cronfeydd wrth gefn gwmpasu risgiau, neu i'r gwrthwyneb, i atal Breuder Ariannol ac effaith drychinebus. Dywedodd yr Arweinydd fod y ffordd y cyflwynir camau lliniarol a'u heffeithiau cysylltiedig yn cael ei hystyried bob amser a bod mecanweithiau sgorio gweddilliol yn gadarn ac yn adlewyrchu'n gywir risgiau i'r Cyngor.

Dywedodd y Cynghorydd Wilson ei bod yn bwysig monitro risg yn sgil yr amodau presennol ac y byddai'r Cabinet, y gwahanol Bwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn parhau i fonitro risg a sicrhau bod cronfeydd wrth gefn mewn gwell cytgordd â graddau o risg.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD – BOD yr argymhellion o gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 27 Chwefror 2023 yn cael eu cymeradwyo.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C279 DIWEDDARIAD AR Y COD RHEOLAETH ARIANNOL 2022/23 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 27 Chwefror 2023.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Pwyllgor wedi gwneud nifer o arsylwadau a'i bod yn synhwyrol cynnwys tabl i dynnu sylw at waith cynllunio camau gweithredu ac at a oedd y Cyngor yn cydymffurfio â'i amcanion. Roedd hi'n teimlo bod yr adborth yn gadarnhaol gan gymheiriaid a chyrrff allanol ac yn credu y byddai hynny'n gam adeiladol.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD – BOD yr argymhellion o gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 27 Chwefror 2023 yn cael eu cymeradwyo.

No.

Y rheswm dros y penderfyniadau

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C280 POLISI A STRATEGAETH CAFFAEL (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar 15 Mawrth 2023.

Dyweddodd yr Arweinydd fod trafodaeth wedi bod am brinder Swyddogion perthnasol i gynorthwyo gyda'r strategaeth gaffael, ond bod adroddiad wedi'i gyflwyno yng nghyfarfod y Cabinet ar 27 Chwefror 2023 yn ymwneud â threfniadau darparu gwasanaethau newydd ar gyfer cyd-wasanaeth caffael â Chaerdydd a Chynghorau eraill a oedd yn ceisio darparu'r gwydnwch pellach hwnnw.

Roedd sgwrs wedi'i chael hefyd ar werth am arian. Dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor wedi gwneud yn dda o ran buddion cymunedol mewn rhai meysydd gweithredol, fel cymunedau dysgu cynaliadwy. Roedd y canlyniadau a gafwyd o ran cyflogaeth, buddsoddiad a phrentisiaethau mewn cymunedau lleol yn fesur gwerthfawr ac yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf roedd tua 1200 o swyddi a thua 88 o brentisiaethau wedi'u creu. Roedd disgwyl y byddai partneriaid gyda'r Cyngor yn adlewyrchu gwerthoedd ac egwyddorion yr Awdurdod fel sefydliad, gan gynnwys adlewyrchu bod y Cyngor yn talu'r cyflog byw gwirioneddol.

Ychwanegodd y Cynghorydd Wilson, wrth edrych ar werth am arian, fod rhaid ystyried economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Yr hyn oedd mor bwysig â gwerth am arian oedd ansawdd y gwasanaeth a ddarparwyd, e.e., fel rhan o ymarferion tendro.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD – BOD yr argymhellion o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar 15 Mawrth 2023 yn cael eu cymeradwyo a bod y Strategaeth yn cael ei diwygio yn unol â hynny.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C281 GWEITHGAREDDAU LEFEL GWASANAETH A THARGEDAU PERFFORMIAD I GYFLAWNI CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL CYNGOR BRO MORGANNWG 2023/2024 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar 15 Mawrth 2023.

No.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at yr argymhelliad ynghylch dangosyddion perfformiad o ran amseroedd ymateb Cyswllt Un Fro i gwrdd â galwadau ffôn a chyfryngau cymdeithasol o fewn oriau gwaith. Roedd hyn wedi bod yn bwnc sgwrsio gydag Archwilio Cymru'n ddiweddar lle'r oedd ansawdd y canlyniad a gafwyd o bob pwynt cyswllt cyn bwysiced â'r amser a gymerwyd i ymateb mewn rhai achosion ac felly nid oedd mor syml ag a awgrymwyd.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD yr argymhellion o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar 15 Mawrth 2023 yn cael eu cymeradwyo.

(2) BOD trafodaethau pellach yn cael eu cynnal ynghylch mesurau ansoddol a meintiol o ran Cyswllt Un Fro a'r hyn a oedd yn ddangosyddion priodol ar berfformiad Prosiect Sero, beth ddylai'r mesurau hynny fod a sut orau y maent yn gwella perfformiad.

Y rheswm dros y penderfyniadau

(1-2) Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C282 FFORWM YMGYNGHOROL AR Y CYD -

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Fforwm Ymgynghorol ar y Cyd a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2023 fel y'u cynhwyswyd yn yr agenda.

Dyweddodd yr Arweinydd fod deialog adeiladol i'w gael bob amser gyda chydweithwyr undeb yn y cyfarfod. Roedd llawer o'r eitemau a drafodwyd wedi bod cyn y trafodaethau ar y gyllideb derfynol felly roedd llawer o'r pwyntiau a wnaed wedi'u cynnwys fel rhan o'r trafodaethau hynny.

PENDERFYNWYD – BOD cofnodion cyfarfod y Fforwm Ymgynghorol ar y Cyd a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2023 yn cael eu nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wrth nodi'r cofnodion.

C283 PWYLLGOR CYNGHORI BAE CAERDYDD -

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Bae Caerdydd a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2023 fel y'u cynhwyswyd yn yr agenda.

Dyweddodd y Cynghorydd Wilson mai'r gobraith oedd cynnal y cyfarfod nesaf yn y Ganolfan Dŵr Gwyn ym mis Mai, ac y byddai naill ai'n cynnwys mordaith neu daith gerdded o amgylch y Bae. Canmolodd Awdurdod yr Harbwr am gwblhau'r gwaith

No.

cynnal a chadw heriol ar y llwybr pysgod mewn amodau anodd i'w alluogi i fod ar waith mewn pryd ar gyfer tymor mudo pysgod.

PENDERFYNWYD – BOD cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Bae Caerdydd a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2023 yn cael eu nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wrth nodi'r cofnodion.

C284 DIWEDDARIAD AR FENTRAU CYDWEITHIO STRATEGOL (AG/PA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) -

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad. Diben hyn oedd rhoi diweddariad i'r Cabinet ar fentrau cydweithio strategol y Cyngor.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor yn cydweithio ar bob lefel gyda nifer o bartneriaid a sefydliadau allanol a nodwyd yn Atodiad A.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Gwnaeth y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

BENDERFYNU - BOD y mentrau cydweithio strategol a oedd ar waith i gefnogi'r gwaith o ddarparu a datblygu gwasanaethau'r Cyngor a chanlyniadau ac amcanion lles y Cyngor yn cael eu nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn rhoi diweddariad i'r Cabinet am fentrau cydweithio strategol.

C285 CYNLLUN LLESIANT DRAFFT BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS Y FRO 2023-28 (AG/PA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) -

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad. Diben hyn oedd galluogi'r Cabinet i ystyried y cynllun lles drafft ar gyfer 2023-28 ar ôl ymgynghori.

Dywedodd yr Arweinydd y cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Cynllun a bod y Cynllun wedi mynd i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Ychwanegodd y Cynghorydd Williams fod cydnabyddiaeth bod angen i'r Cynllun ganolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau ac y cafwyd cydnabyddiaeth bod yna dyraniadau cyllid a oedd yn mynd ynghyd â'r Cynllun a fyddai angen gweithio mewn partneriaeth i symud ymlaen.

No.

Dyweddod yr Arweinydd fod casgliad o nodau lles cyffredin a oedd yn helpu partneriaid i gydweithio gyda sefydliadau fel y Bwrdd Iechyd, Cyngorau Tref a'r Heddlu, ac ati.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Gwnaeth y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

BENDERFYNU -

- (1) BOD y Cynllun Lles drafft wedi'i ddiweddarau (Atodiad A), yr adroddiad adborth ymgynghori (Atodiad B) a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (Atodiad C) yn cael eu cymeradwyo.
- (2) BOD Cynllun Lles newydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei gymeradwyo, a bod yr adroddiad a'r atodiadau yn cael eu cyfeirio at y Cyngor Llawn ar 24 Ebrill 2023 i'w hystyried a'u cymeradwyo.
- (3) BOD y defnydd o'r weithdrefn penderfyniadau brys fel y nodir yn Adran 15.14 o gyfansoddiad y Cyngor yn cael ei gymeradwyo er mwyn i Gynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gael ei gyfeirio at y Cyngor Llawn ar 24 Ebrill 2023 i'w ystyried a'i gymeradwyo.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Er mwyn galluogi'r Cabinet i ystyried yr adborth ymgynghori a'r newidiadau dilynol i'r Cynllun.
- (2) Er mwyn sicrhau y gallai'r Cynllun Lles newydd gael ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Ebrill i'w ystyried a'i gymeradwyo.
- (3) Er mwyn gallu cyfeirio'r Cynllun Lles newydd at y Cyngor ar 24 Ebrill 2023 i'w ystyried a'i gymeradwyo.

C286 GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG ARBROFOL – CAU STRYD YSGOL HEOL DRYDEN, PENARTH (WCA) (CRAFFU - AMGYLCHEDD AC ADFYWIAD) -

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad. Diben hyn oedd cytuno ar gyflwyno stryd ysgol arbrofol ar Dryden Road ar gyfer Ysgol Gynradd Fairfield, Penarth.

Dyweddod y Cynghorydd Wilson mai'r Gorchymyn Rheoli Traffig arbrofol oedd y cyntaf ym Mro Morgannwg gydag 20 o'r 26 o dai ar Dryden Road yn ymateb yn bositif i'r cynigion. Arbrawf oedd hyn, a byddai'r Cyngor yn dysgu ohono o ganlyniad. Ni fyddai'r arbrawf yn atal preswylwyr na staff yr ysgol rhag defnyddio'r ffordd, ond ni fyddai ar gael i'w defnyddio i ollwng plant wrth yr ysgol.

No.

Dyweddod y Cynghorydd Birch fod yr arbrawf yn ei ward ac yn dilyn blynyddoedd o gwynion gan breswylwyr Dryden Road yn ymwneud ag anhawster cael mynediad i'w heiddo oherwydd parcio peryglus yn ystod amseroedd gollwng yr ysgol. Pe bai'n llwyddiannus, gellid defnyddio'r model mewn ysgolion eraill sy'n profi'r un problemau gan y byddai'n creu amgylchedd mwy diogel i blant a rhieni gyrraedd yr ysgol drwy flaenoriaethu mathau eraill o deithio dros y car. Dywedodd y byddai'n ddiddorol gweld y gwersi'n cael eu dysgu o'r treial.

Roedd yr Arweinydd wedi siarad â rhieni yn yr ardal a oedd yn defnyddio eu ceir yn eironig gan eu bod yn teimlo ei bod yn rhy beryglus i gerdded i'r ysgol, gan ei wneud yn gylch dieflig.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Gwnaeth y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

BENDERFYNU -

- (1) BOD hysbysiad cyhoeddus yn cael ei roi ar gyfer Gorchymyn Rheoli Traffig Arbrofol i gyflwyno stryd ysgol ar Dryden Road, Penarth fel y nodir yn Atodiad A a B yr adroddiad.
- (2) BOD adroddiad pellach yn manylu ar ganlyniad y Gorchymyn Arbrofol ar Dryden Road, Penarth yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet erbyn mis Hydref 2024.
- (3) BOD Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Gwasanaethau Tai, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau yn cael ei awdurdodi i gytuno ar y dyluniad terfynol a'r hyd a lled ar gyfer y treial stryd ysgol a gweithredu unrhyw Orchmynion cyfreithiol i weithredu'r Cynllun.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Er mwyn rhoi'r awdurdod angenrheidiol i symud ymlaen gyda'r gorchymyn rheoli traffig arbrofol.
- (2) Er mwyn gallu ystyried llwyddiant neu fel arall y gorchymyn arbrofol yn briodol i lywio penderfyniadau ar unrhyw drefniadau parhaol.
- (3) Er mwyn rhoi'r awdurdod angenrheidiol i sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu yn y modd mwyaf priodol ac effeithlon.

C287 YMATEB I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR DDIWYGIADAU PELLACH I 'NODYN CYNGOR TECHNEGOL (NCT) 15: DATBLYGU, LLIFOGYDD AC ERYDU ARFORDIROL' (YGCGR) (CRAFFU - AMGYLCHEDD AC ADFYWIAD) -

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad. Diben hyn oedd rhoi gwybod i'r Cabinet am yr ymateb drafft i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar 'Nodyn Cyngor

No.

Technegol' (NCT)15: Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol - diwygiadau pellach', a gofyn am gymeradwyaeth i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad.

Dywedodd y Cynghorydd Sivagnanam fod ymateb manwl a thechnegol i'w gael yn Atodiad 1 yr adroddiad a fyddai, pe bai'n cael ei gytuno, yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru cyn diwedd yr ymgynghoriad ar 17 Ebrill 2023.

Dywedodd yr Arweinydd fod trafodaethau wedi bod gydag Arweinwyr lleol eraill ac y gallai fod mwy o iteriadau o'r adroddiad cyn iddo gael ei gytuno.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Gwnaeth y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

BENDERFYNU -

(1) BOD cynnwys yr ymateb i'r ymgynghoriad ar 'Nodyn Cyngor Technegol (NCT)15: Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol - diwygiadau pellach', yn cael ei gymeradwyo i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad.

(2) BOD y defnydd o'r weithdrefn penderfyniadau brys fel y nodir yn Adran 15:14 o Gyfansoddiad y Cyngor yn cael ei gymeradwyo er mwyn i'r ymateb gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau sef 17 Ebrill 2023.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Er mwyn sicrhau bod pryderon a sylwadau'r Cyngor mewn perthynas â Nodyn Cyngor Technegol (NCT)15: Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol - Diwygiadau Pellach yn cael eu derbyn gan Lywodraeth Cymru o fewn yr amserlen a nodwyd ganddi.

(2) Er mwyn dychwelyd yr ymateb i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau gofynnol.

C288 STRYDOEDD CHWARAE (HCL) (CRAFFU - BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL) -

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad. Diben hyn oedd ceisio cael cymeradwyaeth i sefydlu Strydoedd Chwarae mewn gwahanol leoliadau ar draws Bro Morgannwg.

Dywedodd y Cynghorydd John fod yn rhaid i'r trefnydd, y rhiant, y preswlydd, neu unrhyw berson arall mewn stryd a oedd am sefydlu cynllun chwarae ymgynghori â phreswylwyr cyn gwneud unrhyw gais. Byddai'r cais hwnnw'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor a fyddai'n ei gyfeirio at Aelodau perthnasol y ward leol. Byddai'n rhaid i'r trefnydd sicrhau bod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar waith ar gyfer unrhyw ddamweiniau annisgwyl a allai ddigwydd. Byddai modd adnewyddu unrhyw gais yn flynyddol. Byddai Cyngor Bro Morgannwg yn rhoi unrhyw arwyddion perthnasol

No.

yn eu lle ar gyfer unrhyw gais llwyddiannus, ond byddai'n rhaid i stiwardiaid lleol reoli unrhyw draffig yn mynd i mewn neu allan o'r stryd berthnasol. Y gobaith oedd y byddai cyfnod treialu llwyddiannus ac y gallai ffyrdd tawelach a llai prysur eraill gael eu hychwanegu at y cynllun yn y dyfodol ar gyfer y sesiwn dwy awr, unwaith y mis.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Gwnaeth y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

BENDERFYNU -

(1) BOD cymeradwyaeth yn cael ei rhoi i sefydlu Strydoedd Chwarae mewn lleoliadau addas ar draws Bro Morgannwg lle'r oedd cefnogaeth gan fwyafrif y preswylwyr lleol.

(2) BOD y cynllun treialu yn yr adroddiad yn cael ei ddatblygu ymhellach i fod yn gynllun peilot yn y strydoedd a nodwyd a bod unrhyw broblemau'n cael eu hadrodd yn ôl i'r Cabinet. Pe na bai unrhyw broblemau'n cael eu hadrodd, gallai'r cynllun llawn gael ei weithredu o fis Ebrill 2024.

(3) BOD y wybodaeth am Strydoedd Chwarae'n cael ei chyhoeddi ar Wefan y Cyngor i alluogi preswylwyr i wneud cais i gynnwys eu stryd yn y cynllun gydag awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Gwasanaethau Tai mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles i gymeradwyo unrhyw gynllun awdurdodedig.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Er mwyn gwella diogelwch ac ansawdd y ddarpariaeth chwarae ym Mro Morgannwg.

(2) Er mwyn i unrhyw broblemau gyda'r cynigion gael eu nodi a'u hystyried yn ôl yr angen.

(3) Er mwyn galluogi preswylwyr i wneud cais i'w strydoedd ddod yn 'strydoedd chwarae' a chael eu cymeradwyo felly os yw'n dderbyniol i'r Cyngor.